



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

Adroddiad ar Weithrediad ac Effaith
y darpariaethau isafbris 2020-25

llyw.cymru

Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad.....	1
1.1 Cefndir.....	1
1.2 Nod Isafbris Uned	1
1.3 Diben yr adroddiad hwn	2
1.4 Strwythur yr Adroddiad.....	2
Adran 2 - Gwaith Gwerthuso ar Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru ...	3
2.1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiadau Annibynnol o Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru	3
2.2 Dull o Werthuso Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru.....	3
2.3 Dulliau adroddiadau gwerthuso terfynol.....	5
2.4 Cryfderau a chyfyngiadau gwerthuso	5
Adran 3 - Canfyddiadau Allweddol y Gwerthusiadau	6
3.1 Canfyddiadau'r Gwerthusiadau	6
Adran 4 - Casgliadau ac ystyriaethau polisi o'r gwerthusiadau	14
4.1 Casgliad	14
4.2 Ystyriaethau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi.....	15
Adran 5 - Ymgynghori â rhanddeiliaid	18
5.1 Ymgynghoriad	18
5.2 Crynodeb o'r Ymatebion	19
Adran 6 – Casgliad a'r camau nesaf	27
6.1 Casgliad	27
6.2 Y camau nesaf.....	28
Tudalennau Atodiadau er gwybodaeth	31
Atodiad A – Cwestiynau a ddosbarthwyd i randdeiliaid.....	31
Atodiad B – Rhestr o sefydliadau y gwnaethom gyfarfod â nhw (ynghyd â'r cwestiynau)	33

Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Pasiwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2018 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018.

Darparodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. Sefydlwyd yr isafbris uned, sef 50c fesul uned o alcohol, yn ddiweddarach drwy Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019, a ddaeth i rym ar 2 Mawrth 2020.

Gyda'i gilydd, mae'r Ddeddf a rheoliadau 2019 yn pennu'r isafbris ar gyfer cyflenwi alcohol i berson yng Nghymru ac maent yn sefydlu cyfundrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys pwerau i erlyn, cynnal ymchwiliadau, a mynd i mewn i safleoedd. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i gwneud hi'n drosedd i berson sy'n fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, neu awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, am bris sy'n is na'r isafbris cymwys am yr alcohol, a'r gosb am hyn yw dirwy.

Mae'r hafaliad ar gyfer cyfrifo'r isafbris am alcohol wedi'i bennu yn y Ddeddf. Mae'r fformiwla'n seiliedig ar yr isafbris uned (MUP), sef 50c ar hyn o bryd, cryfder yr alcohol (%) a'i gyfaint mewn litrau, ac fe'i cyfrifir fel a ganlyn: $MUP (£0.50) \times \text{cryfder} (\%) \times \text{cyfaint (litrau)} = \text{isafbris cyflenwi'r alcohol}$.

Mae adran 21 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pum mlynedd gyntaf ei gweithredu (h.y. ar ôl 1 Mawrth 2025). Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd, ac eraill, fel y ystyrir yn briodol.

Mae adran 22 o'r Ddeddf yn cynnwys cymal machlud sy'n nodi y bydd darpariaethau MUP yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod chwe blynedd (1 Mawrth 2026), oni bai bod Gweinidogion Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth i barhau â'i heffaith cyn hynny.

1.2 Nod Isafbris Uned

Prif nod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol, a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, trwy leihau'r defnydd o alcohol gan yfwyr peryglus a niweidiol. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn ceisio amddiffyn iechyd yfwyr peryglus a niweidiol, gan gynnwys pobl ifanc, sy'n tueddu i yfed mwy o gynhyrchion cost isel sydd â lefel uchel o alcohol.

1.3 Diben yr adroddiad hwn

Diben yr adroddiad hwn yw manylu ar weithrediad ac effaith y darpariaethau isafbris yn ystod pum mlynedd gyntaf eu gweithredu. Fe'i paratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf, sy'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno'r adroddiad gerbron y Senedd a'i gyhoeddi wedi hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pum mlynedd i gyflwyno'r gyfundrefn isafbris. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, roedd yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd ac unrhyw bersonau eraill a oedd yn briodol yn eu barn nhw.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lywio gan y gwerthusiadau annibynnol a gynhaliwyd dros gyfnod pum mlynedd y Ddeddf (adrannau 2, 3 a 4 yn yr adroddiad hwn), a'r adborth a dderbyniwyd o'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â'r Senedd, a gyda'r personau hynny yr oedd Gweinidogion yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw (adran 5 yn yr adroddiad hwn). Fel rhan o'r ymgynghoriad, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â sefydliadau amrywiol (a nodir yn Atodiad B) ac anfonwyd e-bost at bartneriaid amrywiol o'r sector iechyd, y sector statudol a'r trydydd sector yn gofyn am eu barn am y Ddeddf, ei gweithrediad a'i heffaith.

Gellir defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i lywio penderfyniadau am ddyfodol y gyfundrefn isafbris hefyd.

1.4 Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Adran 2 - Gwaith gwerthuso ar isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn amlinellu cefndir y gwerthusiadau annibynnol o isafbris uned ar gyfer alcohol.

Adran 3 - Canfyddiadau allweddol y gwerthusiadau. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiadau gwerthuso terfynol ar isafbris uned.

Adran 4 - Casgliadau ac ystyriaethau polisi o'r gwerthusiadau. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r casgliadau allweddol o'r gwerthusiadau annibynnol o isafbris uned ac yn amlinellu'r ystyriaethau y maent yn tynnu sylw atynt i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi.

Adran 5 - Ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r themâu allweddol sydd wedi deillio o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i fodloni gofynion adran 21 o'r Ddeddf.

Adran 6 - Casgliadau terfynol a'r camau nesaf. Mae'r bennod hon yn amlinellu casgliadau Gweinidogion Cymru ar weithrediad ac effaith isafbris uned ac yn manylu ar y camau nesaf ar gyfer y polisi.

Adran 2 - Gwaith Gwerthuso ar Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru

2.1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiadau Annibynnol o Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru

Ar 12 Tachwedd 2019, cymeradwywyd y rheoliadau i gyflwyno isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd. Cyflwynwyd isafbris uned o 50c ar 2 Mawrth 2020, wedi'i lywio gan [waith modelu gan Brifysgol Sheffield](#).

Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiadau annibynnol o'r Ddeddf. Dyfarnwyd pedwar contract, ac roedd astudiaethau yn edrych ar agweddau gwahanol ar weithredu. Sef:

- Astudiaeth 1: Dadansoddiad o gyfraniad.
- Astudiaeth 2: Ymchwil i'r effaith ar fanwerthwyr.
- Astudiaeth 3: Gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.
- Astudiaeth 4: Asesiad o effaith cyflwyno isafbris am alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwyr.

Ategwyd y pedair astudiaeth hon gan ddarn cychwynnol o waith ymchwil cyn gweithredu, a oedd yn archwilio'r [posibilrwydd y bydd pobl yn newid sylweddau](#), a rhywfaint o waith ymchwil cynnar yn ymwneud ag [agweddau'r cyhoedd](#) at isafbris uned am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono.

Cyhoeddwyd yr holl adroddiadau gwerthuso o bob astudiaeth, gan gynnwys yr adroddiadau terfynol, ar 15 Ionawr 2025, ac maen nhw ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

2.2 Dull o Werthuso Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru

Nod cyffredinol y gwerthusiadau oedd asesu i ba raddau, os o gwbl, y cyfrannodd isafbris uned ar gyfer alcohol at unrhyw newidiadau (mesuradwy a gweladwy) mewn canlyniadau ymddygiadol, yfed a manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol. Gosodwyd y nod hwn gan dimau polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru, yn unol â'r nod o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a'r angen i sicrhau bod canfyddiadau'n bodloni'r gofynion adrodd a amlinellir yn y Ddeddf.

Fel y'i nodir yn yr [adroddiad dadansoddiad o gyfraniad interim](#), defnyddiwyd dull seiliedig ar ddamcaniaeth o werthuso isafbris uned, gan gydnabod yr her o gymhwyso dulliau arbrofol wrth werthuso dull polisi o'r natur hwn. Mae dadansoddi cyfraniadau'n cynnwys sefydlu damcaniaeth newid a chasglu tystiolaeth o

ffynonellau amrywiol i asesu hanes y cyfraniad, gan ganiatáu i honiadau credadwy gael eu gwneud am ganlyniadau'r polisi. Diolch i'r dull gweithredu hwn, roedd modd i dimau gwerthuso ar draws y pedair astudiaeth asesu, er enghraifft, a oedd pris alcohol cost isel, cryfder uchel wedi cynyddu, a oedd pobl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a oedd y defnydd o alcohol wedi gostwng, ac a oedd ffactorau allanol a allai effeithio ar ganlyniadau wedi cael eu hystyried.

Er bod [damcaniaeth newid ddangosol](#) wedi'i datblygu a'i chyhoeddi fel rhan o'r broses graffu ddeddfwriaethol, fe aeth y tîm ymchwil a oedd yn arwain y dadansoddiad o gyfraniad ati i fireinio'r ddamcaniaeth newid, sydd yn ei ffurf symlaf yn nodi sut y byddai cynnydd ym mhris alcohol yn arwain at ostyngiad yn y defnydd o alcohol, a gostyngiad cysylltiedig mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae manylion am y ddamcaniaeth newid a fireiniwyd a'r dull gwerthuso ar gael yn adran 5 o'r [dadansoddiad o gyfraniad interim](#).

Er mwyn darparu'r dystiolaeth sy'n cael ei hystyried yn angenrheidiol ar gyfer y gwerthusiad, fel y'i nodir yn y ddamcaniaeth newid, a gan gydnabod y byddai dystiolaeth ar gael o awdurdodaethau eraill hefyd (er enghraifft, yr Alban), comisiynwyd pedair astudiaeth i asesu barn manwerthwyr, defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau alcohol, a'r boblogaeth ehangach o yfwyr, law yn llaw â'r dadansoddiad o gyfraniad cyffredinol.

Arweiniwyd y pedair astudiaeth, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gan Brifysgol Wrecsam (dadansoddiad o gyfraniad), y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (astudiaeth manwerthwyr), Figure 8 Consultancy Services Ltd (astudiaeth darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau), a Phrifysgol De Cymru (astudiaeth poblogaeth ehangach o yfwyr).

Defnyddiwyd dulliau ansoddol, meintiol a dulliau cymysg i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i fynd i'r afael â'r cwestiynau gwerthuso allweddol ym mhob un o'r pedair astudiaeth. Er enghraifft, defnyddiwyd arolygon i gasglu data meintiol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, a'r boblogaeth ehangach o yfwyr, ochr yn ochr â chyfweiliadau gyda'r grwpiau hyn er mwyn archwilio materion yn fwy manwl. Yn yr un modd, roedd y gwaith ymchwil gyda manwerthwyr yn cynnwys elfen ansoddol, gan fynd i'r afael â materion gweithredu, ynghyd â dadansoddiad o ddata ar brynu alcohol. Roedd y dadansoddiad hwn yn caniatáu arbrawf naturiol er mwyn cymharu patrymau prynu yng Nghymru â data ar gyfer Lloegr nad yw wedi mabwysiadu polisi isafbris uned am alcohol.

Dylid nodi hefyd bod elfen hydredol wedi'i chynnwys mewn astudiaethau o fanwerthwyr, defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau, a'r boblogaeth ehangach o yfwyr, er mwyn sicrhau i'r graddau y bo'n bosibl bod cyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn tonnau lluosog o gasgliadau data yn ystod cyfnod pum mlynedd y gwerthusiad.

Mae pob un o'r astudiaethau'n amlinellu'r cryfderau a'r cyfyngiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r dulliau a ddefnyddiwyd, gan nodi goblygiadau ar gyfer dehongli'r canfyddiadau.

Ar draws y rhaglen werthuso, roedd trefniadau cynghori yn amrywio. Fel arfer, roedd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r contractwyr ymchwil yn cyfarfod yn ôl yr angen i drafod y prosiectau, samplu, recriwtio, deunyddiau ymchwil a sicrhau ansawdd.

Mewn tair o'r astudiaethau (ac eithrio'r ymchwil manwerthwyr) ategwyd y trafodaethau hyn gan grwpiau cynghori yn cynnwys rhanddeiliaid ychwanegol a oedd yn berthnasol i ffocws yr astudiaeth.

2.3 Dulliau adroddiadau gwerthuso terfynol

Defnyddiodd Astudiaeth 1 o'r gwerthusiad terfynol ddull dadansoddi cyfraniadau ar gyfer ei methodoleg. Casglodd yr adroddiad hwn ddeunydd data eilaidd a chynradd amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau terfynol ar werthusiadau eraill yng Nghymru o'r ddeddfwriaeth, data cynradd ychwanegol o gyfweiliadau, setiau data eraill o Gymru, myfyrdodau ar weithredu polisïau prisio mewn awdurdodaethau eraill, a negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth ymchwil.

2.4 Cryfderau a chyfyngiadau gwerthuso

Roedd pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol wedi ychwanegu cymhlethdod sylweddol at y broses werthuso, ac maent wedi cael effaith sylweddol ar effeithiau gweladwy'r polisi. Mae'r ddau ddigwyddiad wedi cael effaith ar agweddau at alcohol, ei bris, a phatrymau prynu ac yfed, ac maent yn cyfrannu at ganfyddiadau allweddol yng Nghymru a'r Alban, bod gwerthusiad isafbris uned am alcohol yn gymhleth, sy'n arwain at oblygiadau dilynol ar gyfer casgliadau posibl.

Dylid cydnabod hefyd, er bod y gwerthusiad yng Nghymru yn gymharol fach, roedd y [dadansoddiad terfynol o gyfraniad](#) (gweler tudalen 69) o'r farn bod y dull yn briodol yng nghyd-destun y dysgu sydd ar gael o'r Alban, yr adnodd gwerthuso sydd ar gael, a'r dystiolaeth sydd ar gael o'r llenyddiaeth ryngwladol ehangach sy'n nodi gwerth prisio fel dull polisi.

Adran 3 - Canfyddiadau Allweddol y Gwerthusiadau

3.1 Canfyddiadau'r Gwerthusiadau

Gwerthusiad ac adolygiad ffurfiol

Fel y nodir uchod, roedd y gwerthusiadau annibynnol o'r Ddeddf ar ffurf pedair astudiaeth. Cyhoeddwyd y gwerthusiadau terfynol ar 15 Ionawr 2025.

Mae adroddiad terfynol y dadansoddiad o gyfraniad yn darparu'r dadansoddiad cyffredinol o'r polisi isafbris uned. Fel y mae'n amlinellu, dogfen synthesis yw hon, sy'n cynnig gwerthusiad cyffredinol o'r gweithrediad yng Nghymru. Hefyd, mae'r adroddiad yn casglu deunydd data eilaidd a chynradd amrywiol ac mae'n cynnwys adroddiadau terfynol y gwerthusiadau eraill (astudiaethau 2 i 4); data cynradd ychwanegol o gyfweiliadau; myfyrdodau ar weithredu polisiâu prisio mewn awdurdodaethau eraill; a negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth ymchwil.

Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o bob un o'r astudiaethau wedi'i nodi isod. Yn y testun isod sy'n dod o'r gwerthusiadau, mae MUP yn cyfeirio at yr isafbris uned – dyma'r pris penodol a bennwyd fesul uned o alcohol fel mecanwaith ar gyfer isafbris. Mae MPA yn cyfeirio at y polisi ehangach o bennu isafbris am alcohol.

a. Astudiaeth 1 - Dadansoddiad o gyfraniad

Nod cyffredinol yr astudiaeth o ddadansoddiad o gyfraniad oedd asesu'r cyfraniad (os o gwbl) y mae cyflwyno MUP yng Nghymru wedi'i wneud at unrhyw newidiadau (mesuradwy a gweladwy) mewn canlyniadau ymddygiadol, yfed a manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Wrth wneud hyn, rhoddwyd sylw i'r amcanion canlynol: mireinio a gwerthuso'r cyfraniad yn erbyn y ddamcaniaeth newid sy'n sylfaen i gyflawni; darparu gwerthusiad synthesis o werthusiadau penodol eraill yng Nghymru o'r ddeddfwriaeth; dadansoddi llenyddiaeth ymchwil ehangach, setiau data eraill yng Nghymru, a gwerthusiadau awdurdodaethau – fel yr Alban – a chasglu data sylfaenol penodol ychwanegol i ystyried cyfraniadau ac esboniadau posibl eraill. Ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn, cynhaliwyd wyth cyfweiliad ychwanegol gyda rhanddeiliaid allweddol.

Cyflwynir y prif ganfyddiadau a nodwyd yn y dadansoddiad o gyfraniad isod:

- Disgrifiwyd gweithredu'r polisi isafbris am alcohol (MPA) yng Nghymru fel un llyfn ac effeithiol, gyda'r polisi'n dod i rym (newid mewn prisiau ar gynhyrchion penodol) a gyda lefel uchel o gydymffurfio.
- Bu effeithiau amlwg, yn arbennig:

- Cael gwared ar rai cynhyrchion alcohol rhad (er enghraifft mathau o seidr a lager rhad)
 - Cydymffurfiaeth o ran yr alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru gan fanwerthwyr ar yr isafbris neu'n uwch na hynny.
 - Gwahaniaethau rhwng ymddygiad manwerthu yng Nghymru a Lloegr.
 - Rhywfaint o newid addasol gan gynhyrchwyr a manwerthwyr o ran y cynigion a'r cynhyrchion sydd ar gael yng Nghymru.
 - Rhywfaint o newid o ran prynu (a defnydd tybiedig) o seidr a lager cryf a rhad i gwrw, gwin a gwirodydd eraill, gan godi pryderon posibl am fwy o niwed.
- Ymddengys nad oedd isafbris o 50c fesul uned o alcohol wedi cael effaith andwyol ar y rhan fwyaf o yfwyr Cymru, a phrin oedd y dystiolaeth o newidiadau sylweddol mewn ymddygiad prynu a defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth.
- Sylwyd ar effeithiau mwy amlwg ymhlith yfwyr dibynnol ar incwm isel, a wynebodd straen ariannol cynyddol. Yn aml, roedd yr unigolion hyn yn parhau i yfed alcohol trwy ymestyn dulliau ymdopi presennol (er enghraifft, mynd heb fwyd neu beidio â thalu biliau eraill).
- Er bod fforddiadwyedd unrhyw gynnyrch yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd â'r incwm isaf (ac nid yw MPA ddim gwahanol), ni ddylai hyn fod yn rheswm dros wrthod cyfraniad MPA at ymyriadau polisi alcohol cyffredinol. Nododd yr awduron na fyddai bwydydd afiach rhad yn cael eu hargymell fel rhan o ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi bwyd.
- Er gwaethaf pryderon cychwynnol am effaith niwed andwyol cyn pasio'r Ddeddf, gan gynnwys yfwyr peryglus a niweidiol yn newid i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, mae'r gwerthusiad wedi canfod dystiolaeth gyfyngedig yn unig i gefnogi hyn. Er bod rhywfaint o ddefnydd o gyffuriau, troseddau, a chanlyniadau negyddol estynedig eraill wedi cael eu hadrodd, canfuwyd bod y rhain ymhlith y lleiafrif o yfwyr dibynnol yn bennaf, a nodwyd eu bod yn waeth yn aml oherwydd profiadau iechyd a chymdeithasol eraill.
- Nid yw ystadegau ar gyfer mesurau niwed alcohol allweddol (er enghraifft, marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a derbyniadau i'r ysbyty) wedi dangos unrhyw ostyngiad hyd yma. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at bwysau aciwt ar niwed iechyd a chymdeithasol, sy'n gysylltiedig yn aml â'r cynnydd mewn costau byw ac effeithiau cyni ar ddarparu gwasanaethau.
- Yn unol â'r llenyddiaeth ymchwil ehangach, mae'r awduron yn nodi 'annibendod' gwerthusiadau sy'n seiliedig ar bolisi, gan gynnwys polisi isafbris am alcohol, sy'n cyfyngu ar gasgliadau posibl. Mae'r cyfnod a gwmpesir gan

gyflwyno'r isafbris am alcohol a'r gwerthusiad – 2020 i 2024 – wedi'i nodweddu gan lymder parhaus, newidiadau mewn tollau cartref, yr argyfwng costau byw, pandemig Covid-19 a chyfnod o chwyddiant cyson uchel.

- Mae yfed alcohol a'i niwed cysylltiedig yn rhan sylweddol o dirwedd economaidd, iechyd a chymdeithasol Cymru. Mae tystiolaeth ddangosol gynnar y gall sefydlu isafbris uned yng Nghymru gyfrannu at leihau'r niwed hwn.
- Mae'r sylfaen dystiolaeth ehangach (astudiaethau modelu, llenyddiaeth academiaidd, a gwerthusiadau mewn awdurdodaethau eraill) yn awgrymu y dylai llywodraethau ystyried pris (fforddiadwyedd) alcohol fel un o'r dulliau allweddol o gyflwyno polisi alcohol llwyddiannus – mae cyflwyno isafbris uned yn un o 'syniadau gorau' Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer lleihau niwed.
- Mae'r awduron yn nodi bod dull gwerthuso Cymru wedi bod yn gymharol fach, ond yn briodol, wrth i Gymru ddilyn esiampl yr Alban a chyflwyno isafbris uned. Roedd hyn yn gyfle i gymharu canfyddiadau â gwerthusiad cynhwysfawr yr Alban o'i pholisi, gan ystyried maint yr adnodd gwerthuso sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a'r llenyddiaeth academiaidd ryngwladol ehangach sydd ar gael, a oedd yn nodi pwysigrwydd prisio fel elfen annatod o ddulliau polisi alcohol cyffredinol effeithiol.
- Roedd y gwerthusiad cynharach, mwy helaeth o isafbris am alcohol yn yr Alban ar yr un lefel o 50c fesul uned yn gadarnhaol ar y cyfan ac fe gyfrannodd at benderfyniad Llywodraeth yr Alban i barhau â'r polisi a chyflwyno isafbris diwygiedig o 65c fesul uned.

b. Astudiaeth 2 - Ymchwil gyda manwerthwyr

Mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil gyda manwerthwyr a gynhaliwyd tua thair blynedd a hanner ar ôl cyflwyno'r polisi – yn hydref 2023. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dulliau ansoddol a meintiol. Cynhaliwyd cyfweiliadau ansoddol gyda 22 o fanwerthwyr mewn pum rhanbarth yng Nghymru. Roedd y sampl yn cynnwys manwerthwyr annibynnol a manwerthwyr cadwyn; manwerthwyr micro, bach a chanolig; a chyfuniad o drwyddedwyr mewnfasnach, trwyddedwyr allfasnach, neu drwyddedwyr mewnfasnach ac allfasnach.

Ar gyfer y dadansoddiad meintiol, cynhaliwyd dadansoddiadau cyfres amser fylchog reoledig o'r data ar gyfer y cyfnod 2016 i 2023 er mwyn archwilio effaith polisi isafbris am alcohol ar dueddiadau prynu alcohol yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr lle nad yw polisi o'r fath wedi'i gyflwyno. Fe wnaeth y dull gweithredu helpu i ynysu effeithiau isafbris am alcohol o'r cyfnod cydamserol o fesurau diogelu yn erbyn Covid-19.

Yn ôl casgliad yr adroddiad, gyda'i gilydd, mae canlyniadau'r ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol yn dangos bod gweithredu'r polisi isafbris am alcohol yng Nghymru wedi cael yr effaith a ddymunwyd sef lleihau nifer yr unedau alcohol a brynwyd gan aelwydydd. Mae'r canfyddiadau'n cynnwys:

- Roedd manwerthwyr yn teimlo bod polisi isafbris am alcohol yn cael yr effaith a ddymunir, sef lleihau gwerthiant alcohol cryfach, rhad trwy wneud cynhyrchion o'r fath yn ddrutach. Dywedwyd bod cwsmeriaid yn prynu llai ohonynt, a bod manwerthwyr yn llai tebygol o stocio'r cynhyrchion hyn.
- Er bod y polisi wedi ymwreiddio ym musnes pob dydd manwerthwyr erbyn hyn, mae'n bosibl bod yr effeithiau wedi cael eu gwanhau oherwydd bod y cyfnod hir o chwyddiant uchel wedi bwrw cysgod dros y cynnydd mewn prisiau sy'n deillio o'r isafbris am alcohol, tra bod yr isafbris wedi aros yn ddigyfnewid ar 50c fesul uned.
- Dywedodd manwerthwyr fod yr isafbris alcohol wedi dod yn rhan o'u busnes fel arfer bob dydd. Lleihawyd yr anawsterau blaenorol a gafwyd o ran cyfrifo hyrwyddiadau, cynigion a disgowntiau trwy ddefnyddio ap MUP Llywodraeth Cymru, neu drwy brisio canolog gan bencadlysoedd siopau cadwyn.
- Effaith gadarnhaol y polisi isafbris am alcohol oedd bod masnachwyr mewnfasnach yn teimlo iddo greu cystadleuaeth decach rhyngddynt a masnachwyr allfasnach, yn enwedig yr archfarchnadoedd.
- Roedd effeithiau negyddol yr isafbris am alcohol a drafodwyd yn yr ail don (e.e. costau hyfforddiant, gwastraff cynnyrch, a gwirio cynhyrchion â disgownt a ddosbarthwyd o Loegr) yn llai amlwg yn adroddiadau'r manwerthwyr yn y drydedd don. Dywedodd manwerthwyr nad oedd unrhyw effaith weladwy ar eu gwerthiannau oherwydd cwsmeriaid yn croesi'r ffin i brynu alcohol rhatach yn Lloegr.
- Yn gyffredinol, cafodd y polisi isafbris am alcohol effaith arwyddocaol yn ystadegol ar nifer yr unedau alcohol a brynwyd gan aelwydydd. I gychwyn, gwelwyd cynnydd amlwg ym mhryniannau alcohol yng Nghymru yn dilyn cyflwyno'r isafbris am alcohol, a oedd yn cyd-daro â'r mesurau lliniaru COVID-19. Fodd bynnag, roedd yr ymchwydd hwn yn llai yng Nghymru nag yn Lloegr, a gostyngodd pryniant alcohol yn gynt yng Nghymru wedi hynny.

c. **Astudiaeth 3 - Ymchwil gyda defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau**

Mae'r adroddiad terfynol o'r astudiaeth hon yn adeiladu ar waith cynharach a wnaed gyda defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn ymgysylltu â thriniaeth a darparwyr

gwasanaethau yn 2019 a 2022, gyda'r drydedd don o ddata yn cael ei chasglu yn ystod 2024 – sef pedair blynedd ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Fel gyda'r tonnau blaenorol o gasglu data, mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno canfyddiadau o gyfweiliadau ac arolygon ar-lein. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 17 o ddefnyddwyr gwasanaethau (un cyfweiliad yn cynnwys tri defnyddiwr gwasanaethau) a 15 o ddarparwyr gwasanaethau (un cyfweiliad yn cynnwys tri aelod o staff), gan gynnwys rheolwyr gweithredol a staff rheng flaen. Cwblhawyd arolygon gan 121 o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn 14 awdurdod lleol, a 90 o ddarparwyr gwasanaethau mewn 21 awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, mae'r astudiaeth yn cadarnhau canfyddiadau tonnau cynharach o gasglu data, a thystiolaeth o leoedd eraill (gan gynnwys yr Alban). Mynegodd cyfranogwyr agweddau amrywiol tuag at y polisi, a nodwyd rhai teimladau negyddol. Fodd bynnag, roedd llawer o gyfranogwyr yn cydnabod bod y trefniadau presennol yn well na'r dyddiau cyn cyflwyno isafbris uned pan oedd alcohol llawer rhatach (yn enwedig seidr gwyn cryf) ar gael yn rhwydd ac yn cael ei yfed gan bobol â phroblemau alcohol. Nododd rhai cyfranogwyr bwysigrwydd darparu opsiynau triniaeth a chymorth ychwanegol ar gyfer yfwyr dibynnol ar incwm isel, o ystyried y niwed parhaus a wynebwr gan y grŵp hwn.

Mae'r canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae camddealltwriaeth a chamddehongliad yn parhau ynglŷn â'r polisi isafbris am alcohol ymysg defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau – rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i addysgu'r sector a'r gweithlu triniaethau alcohol a chyffuriau am nodau'r polisi.
- Mae cael gwared ar gynhyrchion alcohol rhad wedi arwain at fwy o bwysau ariannol ar y rhai sy'n ceisio cynnal dibyniaeth. Yn aml, mae isafbris alcohol yn cael ei gamddeall fel polisi sy'n targedu yfwyr agored i niwed ar incwm isel, yn hytrach na'u gweld fel grŵp yr effeithir arnynt yn andwyol o ganlyniad i fesur poblogaeth cyffredinol ehangach. Mae hyn yn arwain at agwedd negyddol a chanfyddiad o bolisi sy'n methu â chefnogi yfwyr dibynnol.
- Soniodd darparwyr gwasanaethau nad yw'r isafbris am alcohol yn destun sgwrs rheolaidd mwyach ymysg staff na defnyddwyr gwasanaethau, a allai leihau ei effaith a'i effeithiolrwydd hirdymor. Mae hyn yn awgrymu nad yw isafbris am alcohol wedi cael ei integreiddio'n llawn yn y drafodaeth gyhoeddus ehangach ar yfed alcohol ac iechyd y cyhoedd gyda'r grwpiau hyn.
- Mae darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau wedi gweld rhai newidiadau tuag at brynu diodydd alcoholaidd cryfach, fel gwirodydd a gwin, oherwydd y cyfyngiadau prisio a osodir gan yr isafbris am alcohol, gyda defnyddwyr yn ceisio yfed cymaint o alcohol â phosibl er gwaethaf prisiau

uwch.

- Er bod cyd-ddealltwriaeth ymysg darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau bod caledi ariannol bron bob amser yn arwain unigolion i flaenoriaethu alcohol dros gostau byw hanfodol, i'r rhan fwyaf o yfwyr nid yw hyn yn cynnwys gweithgarwch sy'n torri'r gyfraith, fel dwyn o siopau i dalu am brisiau alcohol uwch, neu newid i gynnyrch rhatach neu sylweddau eraill, gan gynnwys sylweddau anghyfreithlon, o ganlyniad i brisiau alcohol uwch.
- Nododd darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau fod nifer fach o yfwyr wedi troi at brynu dros y ffin i gael alcohol rhatach, ond dim ond ymhlith y rhai sydd â'r modd (incwm) a'r dull (trafnidiaeth) o fewn cyrraedd hawdd i'r ffin â Lloegr.
- Nododd rhai darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau fod rhai pobl yn defnyddio cyffuriau lluosog, fel dewis arall rhatach neu ynghyd ag alcohol.
- Er bod agweddau negyddol tuag at y polisi wedi'u mynegi, roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a gyfwelwyd yn credu y dylid cadw'r ddeddfwriaeth isafbris am alcohol, er mwyn osgoi dychwelyd i gyfnod lle'r oedd alcohol llawer rhatach (yn enwedig seidr gwyn cryf) ar gael yn rhwydd ac yn cael ei yfed gan bobl sy'n cael problemau gydag alcohol. Fodd bynnag, mae angen triniaeth a chymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r effaith niweidiol ar yfwyr dibynnol ar incwm isel.
- Argymhellir cyflwyno camau gweithredu i wella'r ymatebion triniaeth ledled Cymru ar gyfer yfwyr dibynnol, darparu rhaglen benodol o gymorth ar gyfer asiantaethau triniaeth er mwyn iddynt ganolbwyntio eu sylw a'u harbenigedd wrth ymgysylltu'n weithredol ag unigolion ynghylch rheoli eu harian a lliniaru tlodi, ac os yw'r isafbris alcohol yn parhau, gwella negeseuon am y gynulleidfa darged a'r effaith ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel.

d. Astudiaeth 4 - Ymchwil gyda'r boblogaeth ehangach o yfwyr

Mae'r adroddiad yn cyflwyno data o'r bedwaredd don (a'r don olaf) o gasglu data sy'n canolbwyntio ar effaith isafbris am alcohol ar y boblogaeth gyffredinol o yfwyr sy'n byw yng Nghymru, a gasglwyd yn ystod 2024 – pedair blynedd ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Yn yr un modd â'r tri adroddiad cynharach, casglwyd data trwy ddefnyddio cyfweiliadau ansoddol gyda 34 o yfwyr a oedd yn rhan o'r astudiaeth cyfweiliadau hydredol neu a oedd wedi cael eu recriwtio i ddisodli'r rhai a oedd wedi

rhoi'r gorau iddi, ac arolwg holiadur ar-lein trawsdoriadol dienw o yfwyr sy'n oedolion sy'n byw yng Nghymru, a gwblhawyd gan 181 o bobl.

Mae'r awduron yn nodi bod canfyddiadau'r astudiaeth wedi dangos bod isafbris am alcohol yn fecanwaith effeithiol ar gyfer cael gwared ar gynhyrchion alcohol rhad iawn. Mae pris seidr gwyn cryf wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn absennol o silffoedd siopau i raddau helaeth. Mae'n dangos hefyd bod effeithiau ehangach isafbris am alcohol yn gymysg, ac ymddengys bod rhai poblogaethau'n fwy agored i'w heffeithiau negyddol nag eraill.

Er bod yr adroddiad yn cynnwys swm sylweddol o ddata yn deillio o'r cyfweiliadau a'r ymatebion i'r arolwg, mae canfyddiadau penodol yn cynnwys:

- Yn unol â chanfyddiadau blaenorol, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ymwybodol o'r isafbris am alcohol, ond roedd dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth yn gyfyngedig, gydag ymwybyddiaeth uwch ymhlith yfwyr risg is a chynyddol nag yfwyr risg uwch. Mae'n bosibl bod y ffaith i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar ddechrau'r pandemig Covid-19 wedi cyfrannu at hyn. Roedd y cynnydd mewn prisiau a nodwyd yn gysylltiedig i raddau helaeth â seidr cryf, er bod cynnydd mewn prisiau yn cael ei briodoli'n rhannol i isafbris am alcohol yn unig. Credwyd bod chwyddiant a'r argyfwng costau byw wedi cyfrannu hefyd.
- Yn yr un modd, fel y canfuwyd mewn tonnau cynharach o gasglu data, ymddengys nad oedd isafbris am alcohol wedi cael llawer o effaith ar batrymau yfed, a dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr a nododd newidiadau yn amllder yfed alcohol a faint maen nhw'n ei yfed. Priodolwyd newidiadau yn y defnydd o alcohol i ffactorau amrywiol, gan gynnwys gostyngiad a sbardunwyd gan gostau cynyddol neu newidiadau ffordd o fyw, a chynnydd sy'n gysylltiedig â mwy o weithgarwch cymdeithasol yn sgil llacio cyfyngiadau Covid-19. Nodwyd bod pris yn un ffactor a sbardunodd y newid o seidr i wirodydd ymhlith yfwyr risg uwch.
- Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddent yn newid faint o arian maen nhw'n ei wario ar alcohol, ac roedd yfwyr risg is yn fwy tebygol o nodi bod alcohol yn llai fforddiadwy.
- Roedd newidiadau yn y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn brin, ac roedd newidiadau o'r fath yn tueddu i gael eu nodi gan unigolion â hanes blaenorol o ddefnyddio cyffuriau.
- Roedd safbwyntiau ar effeithiolrwydd canfyddedig isafbris am alcohol yn gymysg, gyda rhai yn cydnabod bod yr effaith yn amrywio ymhlith gwahanol fathau o yfwyr, tra bod eraill yn awgrymu bod angen mwy o amser a thystiolaeth i allu asesu hyn. Roedd safbwyntiau negyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar yr effaith ganfyddedig ar y tlotaf mewn cymdeithas a'r rhai

sydd â phroblemau alcohol, tra bod safbwyntiau cadarnhaol yn cyfeirio at yr effaith ar fforddiadwyedd ac felly hygyrchedd. Yn yr un modd, roedd safbwyntiau ar barhad isafbris am alcohol yn gymysg, ac roedd cyfran sylweddol heb benderfynu oherwydd diffyg tystiolaeth neu oherwydd nad yw'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

- Nodwyd bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o isafbris am alcohol er mwyn gwella effeithiolrwydd, ochr yn ochr â mentrau eraill i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

I gloi, mae'r adroddiad yn gwneud pedwar sylw. Yn gyntaf, nid yw isafbris am alcohol wedi cael fawr o effaith ar batrymau yfed y bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth. Yn ail, nid oedd rhai pobl yn ymwybodol o'r isafbris am alcohol, ac ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol ohono, roedd ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o'r polisi. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod pobl yn teithio i Loegr i brynu alcohol am brisiau rhatach, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n byw yn agos at y ffin neu sy'n ymweld â Lloegr yn rheolaidd. Ac yn olaf, nid oedd canlyniadau negyddol yr isafbris am alcohol a ragwelwyd yn eang yn cael eu hadrodd yn gyffredin, ond nid oeddent yn gwbl absennol – roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys newid o seidr i wirodydd a'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon fel dewis rhatach yn lle alcohol, er roedd yr achosion hyn yn brin ac yn bennaf ymysg pobl â hanes blaenorol o ddefnyddio cyffuriau.

Mae'r argymhellion petrus sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cwmpasu gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o isafbris am alcohol; darparu eglurder ynglŷn â bwriad y polisi er mwyn mynd i'r afael â'r "annhegwch" canfyddedig ac effaith ar grwpiau agored i niwed; yr angen am fesurau ategol i wella effeithiolrwydd isafbris am alcohol; parhau i gasglu tystiolaeth a chyhoeddi canfyddiadau er mwyn gwella dealltwriaeth o effeithiolrwydd hirdymor; ac adolygiad rheolaidd o lefel yr isafbris uned , er mwyn sicrhau bod isafbris am alcohol yn cael yr effaith a ddymunir.

Adran 4 - Casgliadau ac ystyriaethau polisi o'r gwerthusiadau

4.1 Casgliad

Mae'r adroddiad ar y dadansoddiad o'r cyfraniad terfynol yn dwyn canfyddiadau'r holl astudiaethau ynghyd, ac er gwaethaf nifer fach o amheuon pwysig, mae'n nodi bod y gwerthusiad cyffredinol yn cyfeirio at adroddiadau cadarnhaol am isafbris am alcohol fel mesur polisi, ac yn fwy penodol, at weithredu yng Nghymru.

Mae'r gwerthuswyr yn nodi bod hyn, yn ei dro yn awgrymu ei fod yn adnodd pwysig, ynghyd ag eraill, mewn datblygu polisi alcohol.

Mae paragraff 9.5 o'r adroddiad ar y dadansoddiad o gyfraniad yn dweud: "Y cam amlwg fyddai dilyn arweiniad yr Alban ac adnewyddu'r ddeddfwriaeth, a thrwy hynny gadw'r opsiwn polisi".

Hefyd, mae awduron yr astudiaeth annibynnol hon yn nodi ym mharagraff 9.6: "Mae goblygiadau penodol ynghlwm wrth ddewis peidio ag adnewyddu'r ddeddfwriaeth MPA a gadael i'r 'cymal machlud' ddod i rym. Y mwyaf amlwg o'r rhain yw y bydd Cymru'n gweld argaeledd cynnyrch alcohol rhatach a'r cynnydd cysylltiedig mewn niwed yn dychwelyd".

Mae paragraff 9.8 yn dweud: "Mae cwestiynau'n dal i fodoli am effaith y pris 50ppu gwreiddiol (a chyfredol o hyd) yn lleihau dros amser . Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth yw pris priodol wrth symud ymlaen."

Mae'r gwerthusiad yn nodi bod ystyriaethau sy'n gorgyffwrdd, megis pandemig Covid-19 – daeth y polisi i rym ar ddechrau'r pandemig – ac effaith yr argyfwng costau byw dilynol ar y polisi, yn golygu bod llawer o'r negeseuon sy'n deillio o gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru yn parhau'n gynnil:

- Yn gyffredinol, mae gweithredu'r polisi wedi bod yn llwyddiannus, gyda rhai effeithiau amlwg penodol, cytundeb cyffredinol, a thystiolaeth gyfyngedig o niwed eang.
- O ran canlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, roedd gwaith modelu sy'n llywio'r polisi yng Nghymru yn cynnwys oedi o 20 mlynedd, sy'n golygu bod canfyddiadau cadarnhaol ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym yn 2020 a chyhoeddi'r adroddiadau gwerthuso terfynol yn annhebygol. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond gall hyn fod oherwydd ffactorau amrywiol heblaw aneffeithiolrwydd isafbris am alcohol. Mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu bod isafbris am alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

- Mae pryder o hyd am boblogaethau penodol. Mae'r gwerthusiadau'n dangos bod isafbris am alcohol yn cael yr effaith fwyaf ar yfwyr dibynnol ar incwm isel, sy'n pwysleisio'r angen am wasanaethau cymorth a pholisïau cadarn sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd sylfaenol.
- Mae'n bosibl cael hyder mewn gwerthusiadau yng Nghymru oherwydd eu bod yn adlewyrchu canfyddiadau gwerthusiadau'r Alban.
- Mae angen i bris alcohol fod yn rhan o set ehangach a chynhwysfawr o ystyriaethau polisi.
- Dylanwadir ar gyfnod gwerthuso Cymru a pholisi alcohol yn fwy cyffredinol gan ystod o ystyriaethau cymhleth sy'n gorgyffwrdd.
- Y mater mwy heriol, a'r maes ar gyfer effaith polisi, o hyd yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd, iechyd a chymdeithasol ehangach.

4.2 Ystyriaethau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi

Mae'r ystyriaethau canlynol yn dod o [adroddiad gwerthuso'r dadansoddiad o'r cyfraniad terfynol](#) gweler paragraff 9.9, tudalennau 78 i 79) a bwriedir iddynt lywio, yn hytrach na rhagnodi, penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn print trwm isod a'u cyflwyno fel y maent wedi'u hysgrifennu yn yr adroddiad gwerthuso interim. Mae ymatebion Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu ymrwymiad i lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gadael lle i drafod ymhellach.

- **Dylai Llywodraeth Cymru adnewyddu yn hytrach na cholli'r opsiwn isafbris am alcohol fel mesur polisi alcohol yng Nghymru.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ystyried adolygiad o'r lefel pris 50c fesul uned presennol.**
- **Mae angen cynnydd mewn prisiau i o leiaf 65c fesul uned er mwyn cynnal y gwerth polisi presennol ac unrhyw rai o'r effeithiau cadarnhaol a welwyd hyd yma.**

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod argymhelliad y gwerthusiad terfynol i ystyried adnewyddu'r isafbris uned ar gyfer deddfwriaeth alcohol ac archwilio effaith bosibl cynyddu'r isafbris i 65c fesul uned o leiaf.

Ynghyd â'r canfyddiadau yn yr adroddiad gweithrediad ac effaith hwn, rydym yn cydnabod bod yn rhaid ystyried effeithiau posibl newid y pris presennol o 50c fesul uned, os yw'r isafbris uned yn parhau. Er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith modelu wedi'i ddiweddarau gan Sheffield Addictions Research Group, Prifysgol Sheffield, er mwyn

asesu effeithiau posibl lefelau pris gwahanol gan ddefnyddio'r data diweddaraf.

- **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd unrhyw ddefnydd parhaus o'r ddeddfwriaeth ac unrhyw gynnydd posibl mewn prisiau'n cael ei gefnogi gan gyfathrebu gweithredol sydd wedi'i lunio'n dda.**

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda manwerthwyr, y diwydiant alcohol, iechyd y cyhoedd a rhanddeiliaid camddefnyddio sylweddau er mwyn datblygu deunyddiau cyfathrebu yn ymwneud ag isafbris uned ar gyfer alcohol. Roedd ymgyrch gyfathrebu'n cyd-fynd â'r cyfnod cyn cyflwyno'r polisi er mwyn hyrwyddo nodau iechyd y cyhoedd y ddeddfwriaeth, gan ganolbwyntio ar yfwyr peryglus a niweidiol. Os bydd y ddeddfwriaeth yn parhau, ac os gwneir unrhyw newidiadau i'r pris, nod unrhyw ymgyrch yn y dyfodol fydd atgyfnerthu diben y ddeddfwriaeth ac unrhyw ddiweddariadau. Mae adborth gan fanwerthwyr fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori ar gyfer yr adroddiad hwn, ac adborth o'r astudiaethau gwerthuso, wedi pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu hefyd, pe bai'r ddeddfwriaeth yn parhau a'r pris yn newid (gweler isod).

- **Dylai Llywodraeth Cymru nodi effaith andwyol y polisi ar rai poblogaethau o bobl ar incwm isel ac yfwyr trwm a dylai, yn ei thro, sicrhau bod ei thriniaeth, ei pholisi a'i darpariaeth ar gyfer alcohol yn diwallu anghenion y grŵp hwn.**

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod bod yr adroddiad terfynol yn nodi bod y polisi yn gallu cael effeithiau andwyol ar rai poblogaethau ar incwm isel ac yfwyr trwm. O ran y rhai ar incwm isel, er bod fforddiadwyedd unrhyw gynnyrch yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd â'r incwm isaf, roedd y gwerthusiad yn cydnabod na ddylai hwn fod yn rheswm dros wrthod cyfraniad isafbris uned ar gyfer alcohol at ymyriadau polisi alcohol cyffredinol.

O ran yfwyr dibynnol, mae Llywodraeth Cymru'n parhau â'i hymdrechion i gefnogi yfwyr dibynnol drwy'r cymorth a ddarperir gennym i Fyrddau Cynllunio Ardal sy'n comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad ar lefel sy'n fwy na £67m y flwyddyn yn yr agenda camddefnyddio sylweddau er mwyn helpu pobl i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys cymorth canolfannau triniaeth adsefydlu ac addysg yn ymwneud â defnyddio alcohol.

Mae prosiectau fel Feeding Recovery Work a ddatblygwyd gan Alcohol Change yn gwneud cyfraniad pwysig. Cyhoeddodd Alcohol Change [The Feeding Recovery Handbook](#) ym mis Mawrth 2025 i helpu gwasanaethau triniaeth lleol i ddarparu gweithgareddau coginio a bwyta ar gyfer pobl sy'n cael eu niweidio gan alcohol. Mae

hyn yn cynnig model ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi pobl â phroblemau alcohol gan helpu i fynd i'r afael â maeth gwael ac ynysigrwydd cymdeithasol, sy'n cyd-fynd â phroblemau alcohol yn aml, ac am sut mae cysylltu ag eraill o amgylch bwyd yn gallu hyrwyddo llesiant a lleihau niwed.

- **Dylai unrhyw barhad o'r polisi gael ei ategu gan werthusiad parhaus a gwerthusiad pellach. Dylai hyn gynnwys ystyried effaith MPA ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.**

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r argymhelliad hwn a bydd unrhyw waith ar ei gyflawni yn cael ei ystyried os yw'r ddeddfwriaeth yn parhau.

- **Dylai Llywodraeth Cymru roi sylw i'r ffaith bod anghydraddoldeb ac amddifadedd dilynol yn ffactor mor allweddol mewn canlyniadau iechyd. Lle bo'n bosibl, dylai barhau i liniaru tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol gan ei bod yn fwyfwy clir bod niwed alcohol yn effeithio fwyaf ar y rheini sydd â nifer o brofiadau niweidiol difrifol, lefelau is o incwm, ac sy'n profi tlodi.**

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae isafbris uned yn un polisi a gynlluniwyd ac a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau iechyd. Bydd ymdrechion i gefnogi yfwyr dibynnol yn parhau trwy'r cymorth a ddarparwn i'n Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod anghenion y bobl fwyaf agored i niwed sy'n camddefnyddio sylweddau yn cael eu diwallu a bod y canllawiau a'r driniaeth briodol ar waith.

Adran 5 - Ymgynghori â rhanddeiliaid

O dan adran 21(2) o Ddeddf 2018, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r Senedd a'r cyfryw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth baratoi'r adroddiad hwn. Hefyd, cytunodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y dylid cynnal ymgynghoriad 12 wythnos gyda rhanddeiliaid perthnasol i lywio'r adroddiad hwn.

5.1 Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos â rhanddeiliaid rhwng 30 Ionawr a 24 Ebrill 2025. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, ar gais y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar isafbris uned, a gaeodd ar 30 Ebrill. Cyflwynwyd y dystiolaeth a gasglwyd i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin. Mae crynodeb o'r canfyddiadau o bob elfen o'r ymgynghoriad i'w weld yn adran 5.2.

a. Ymgynghori drwy e-bost â rhanddeiliaid

Er mwyn cefnogi'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, anfonwyd set fer o gwestiynau (gweler atodiad A) at rhanddeiliaid mewn sectorau gwahanol. Roedd rhai o'r unigolion hyn wedi cyfrannu o'r blaen pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth yn wreiddiol. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar brofiadau yn ymwneud â'r isafbris uned. Anfonwyd nodiadau atgoffa ar 25 Mawrth, 7 Ebrill a 15 Ebrill. Derbyniwyd cyfanswm o 27 o ymatebion.

b. Cyfarfodydd â sefydliadau allweddol

Hefyd, cynhaliodd swyddogion gyfarfodydd â sefydliadau allweddol o'r sector iechyd a manwerthu, a grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio alcohol. Er bod y drafodaeth yn cael ei harwain gan set o gwestiynau (gweler atodiad B), rhannodd cyfranogwyr safbwyntiau ehangach ar effaith isafbris uned. Mae rhestr o sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw, a'r cwestiynau trafod, wedi'i chynnwys yn atodiad B. Mewn sawl cyfarfod, cytunwyd y byddai'r sefydliadau hyn yn cylchredeg y cwestiynau i'w haelodau ehangach a'u hannog i gyflwyno eu safbwyntiau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymateb ehangach i'r ymgynghoriad.

c. Agweddau'r cyhoedd at isafbris uned

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd er mwyn cynnwys cwestiynau wedi'u diweddarau yn ymwneud ag ymwybyddiaeth ac agweddau'r cyhoedd tuag at isafbris uned yn nhon Chwefror 2025 o [astudiaeth banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus](#). Roedd y broses casglu data yn cynnwys

sampl gynrychioliadol genedlaethol o 2,137 o oedolion ledled Cymru. Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu hymwybyddiaeth o isafbris uned, a oeddent yn ei gefnogi neu'n ei wrthwynebu, a'r rhesymau am eu safbwynt. Addaswyd y cwestiynau o'r rhai [a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan Lywodraeth yr Alban](#).

d. Galwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r Senedd a'r cyfryw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth baratoi'r adroddiad hwn. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, yn gwahodd y pwyllgor i ystyried cynnal galwad fer am dystiolaeth ar isafbris uned. Cytunodd y cadeirydd, a chyhoeddodd y pwyllgor alwad ysgrifenedig am dystiolaeth. Mae'r manylion llawn, gan gynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd, ar gael ar [wefan y Senedd](#).

5.2 Crynodeb o'r Ymatebion

a. Ymgynghori drwy e-bost â rhanddeiliaid

Mae'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o ymatebion rhanddeiliaid a gyflwynwyd drwy e-bost wedi'u crynhoi isod. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 27 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ac mae'n diolch i bawb a gyfrannodd.

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad e-bost yn cynrychioli sectorau amrywiol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector, byrddau iechyd, a'r sector manwerthu. Mae dadansoddiad yr ymatebion fel a ganlyn:

- Cynrychiolwyr byrddau iechyd: 10
- Safonau Masnach: 10
- Y sector manwerthu: 5
- Sefydliadau ymchwil: 1
- Y trydydd sector: 1

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn tynnu sylw at y materion allweddol a godwyd. Mae'r rhain wedi'u grwpio'n is-benawdau er hwylustod cyfeirio. Mae'r canfyddiadau'n adleisio canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol i raddau helaeth.

Effaith isafbris uned

Mae'n bosibl bod pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol wedi dylanwadu ar arferion yfed alcohol ledled y boblogaeth, gan ei gwneud hi'n anodd deall effaith benodol isafbris uned.

Mae cydymffurfiaeth â'r isafbris uned wedi bod yn uchel yn gyffredinol, ac ni fu llawer o darfu ar fanwerthwyr alcohol. Yn ôl Safonau Masnach, roedd busnesau nad ydynt yn cydymffurfio yn tueddu i fod yn fusnesau sydd â lefelau cydymffurfiaeth gwael â rheoliadau gwerthu dan oed ac yn debygol o fod yn fusnesau sy'n gwerthu tybaco neu fêps yn anghyfreithlon. Er nad oedd unrhyw ddata ystadegol wedi'i ddarparu, ymddengys bod cwynion i Safonau Masnach am fynediad at alcohol i bobl ifanc dan oed wedi gostwng ers cyflwyno isafbris uned.

I ddechrau, sylwyd ar gynnydd mewn gwerthiant fodca rhad a gostyngiad mewn gwerthiant seidr cryf, sy'n awgrymu bod rhai yfwyr problemus wedi newid i yfed gwirodydd gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell gwerth am arian gwell. Fodd bynnag, ymddengys bod y newid hwn wedi cael ychydig iawn o effaith ar fanwerthwyr cyfleuster, a oedd yn prisio alcohol yn uwch na throthwy'r isafbris uned gan amlaf, gan alinio â phrisiau manwerthu a argymhellir yn aml. Roedd manwerthwyr yn wynebu rhai heriau wrth ddiweddarau deunyddiau marchnata nad oeddent yn cydymffurfio.

Mae darparwyr gwasanaethau'n adrodd nad yw isafbris uned wedi cael llawer o effaith ar unigolion ag anhwylderau defnyddio alcohol difrifol eto. Mae hyn yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd bod isafbris uned wedi'i dargedu'n llawn neu'n rhannol at yfwyr dibynnol, gan fod unigolion sydd eisoes yn ddibynnol yn parhau i yfed, yn aml yn newid o seidr cryf i ddioddydd eraill. Sylwodd rhai y gallai yfwyr dibynnol droi at ddwyn alcohol o siopau os na allant fforddio ei brynu, sy'n awgrymu y gallai prisio gael fawr ddim effaith ar eu hymddygiad.

Cyn cyflwyno'r polisi, roedd pryderon y byddai isafbris uned yn cynyddu'r risg o bobl yn dechrau defnyddio sylweddau mwy peryglus (neu anghyfreithlon) yn lle alcohol. Dywedodd un darparwr gwasanaeth nad yw hyn wedi digwydd yn gyffredinol, gan nodi na fu cynnydd sylweddol yn y defnydd o alcohol sy'n cael ei fragu yn y cartref. Fodd bynnag, mae eraill wedi sylwi ar dueddiadau o'r fath, gan gynnwys achosion o alcohol yn cael ei gyfuno â sylweddau fel cetamin. Mae mwy o bobl wedi dechrau gofyn am gymorth oherwydd straen ariannol, gyda rhai yn blaenoriaethu prynu alcohol dros eitemau hanfodol.

Cyfeiriodd un ymateb at adroddiadau anecdotaidd sy'n awgrymu bod isafbris uned wedi dylanwadu ar arferion yfed, gan ysgogi rhai yfwyr dibynnol i newid i wirodydd, a'i fod wedi cymhlethu ymdrechion i leihau niwed hefyd. Mae gwasanaethau wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl sy'n goryfed mewn pyliau ac unigolion sy'n dibynnu ar alcohol, gan roi pwysau ychwanegol ar staff, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau sy'n wynebu argyfyngau ariannol hefyd.

Mae rhai yn teimlo bod isafbris uned wedi ychwanegu at y pwysau ariannol sy'n wynebu yfwyr risg uchel, tra bod eraill yn parhau i gefnogi potensial hirdymor y polisi. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol wedi ei gwneud hi'n anodd nodi effeithiau uniongyrchol isafbris uned. Fodd bynnag, nodwyd bod marwolaethau alcohol-benodol yn parhau i gynyddu, yn

enwedig mewn cymunedau sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol. Er bod isafbris uned yn gallu helpu i reoli defnydd gormodol o alcohol a lleddfu llwythi gwaith y GIG, mae rhai yn dadlau bod rheolaethau prisio yn cosbi defnyddwyr incwm isel, ac nad ydynt yn lleihau yfed niweidiol yn effeithiol, ochr yn ochr â chreu risg uwch o ddiddlyfnu heb ei gynllunio.

Awgrymodd un ymateb o'r diwydiant fod isafbris uned yn cosbi defnyddwyr cyfrifol a phobl ar incwm isel, yn atal arloesedd yn y sector, ac yn methu â darparu ateb cynhwysfawr i gamddefnyddio alcohol. Dywedodd y dylai amodau'r farchnad benderfynu sut mae diodydd alcohol yn cael eu prisio. Dywedodd yfwyr dibynnol eu bod yn blaenoriaethu alcohol dros dreuliau hanfodol, gan waethygu caledi ariannol heb gymorth digonol. Awgrymodd adborth o'r sector manwerthu fod yfwyr cymedrol, sy'n fwy tebygol o yfed llai o alcohol, yn ystumio ymatebolrwydd cyffredinol ar lefel y boblogaeth, gan guddio diffyg effaith ymysg yfwyr trwm, a allai droi at ddewisiadau amgen rhatach.

Bydd newidiadau polisi ychwanegol yn 2025, gan gynnwys cynnydd yn y dreth, taliadau o dan y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu, a chynnydd mewn costau busnes cyffredinol, yn cael rhagor o effaith ar brisio alcohol. Dadleuodd un cynrychiolydd o'r sector manwerthu fod ymyriadau wedi'u targedu yn fwy effeithiol wrth leihau niwed alcohol na pholisïau prisio cyffredinol fel isafbris uned, ac roedd yn gwrthwynebu newidiadau polisi pellach y tu hwnt i addasiadau cyfradd.

Parhad a phris

Roedd ymatebion yn ymwneud â pharhad a lefel isafbris uned am alcohol yng Nghymru yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi ei barhad ac yn dadlau o blaid addasiadau mynegai chwyddiant er mwyn cynnal effeithiolrwydd y polisi. Mae eraill yn dadlau bod y cynnydd mewn prisiau alcohol oherwydd cynnydd mewn chwyddiant a threth wedi golygu bod isafbris uned bron yn amherthnasol ar ei lefel bresennol.

Mynegwyd pryderon y gallai isafbris sy'n rhy uchel arwain at alcohol yn cael ei werthu mewn marchnadoedd anghyfreithlon. Roedd rhai o'r farn bod isafbris uned yn helpu i leihau'r defnydd o alcohol ymysg pobl ifanc, gan y byddai'n llai hygyrch yn ariannol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen dull gweithredu gofalus sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth bennu unrhyw gynnydd yn y dyfodol, gan gynnwys cyfnodau addasu digonol i fanwerthwyr.

Dadleuodd rhai cynrychiolwyr y diwydiant na ddylai gwerthiannau fod yn destun unrhyw dreth sydd â'r nod o adennill refeniw a ystyrir yn ormodol oherwydd cynnydd yng nghyfradd yr isafbris uned, gan y byddai hyn yn gosod rhwymedigaethau ychwanegol ar fusnesau. Roeddent yn pwysleisio hefyd y byddai cysondeb â'r Alban yn helpu i leihau cymhlethdod ar gyfer manwerthwyr sy'n gweithredu yn y ddau

ranbarth os yw Llywodraeth Cymru'n penderfynu parhau ag isafbris uned a chynyddu'r gyfradd.

Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

Roedd rhanddeiliaid yn parhau i gredu bod isafbris uned yng Nghymru yn un o'r mesurau iechyd y cyhoedd allweddol i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac roedd llawer am i'r polisi hwn fod yn rhan o gynllun cenedlaethol alcohol i wella atebolrwydd a dyrannu adnoddau. Awgrymwyd yn gryf y dylai'r cynllun ganolbwyntio ar leihau effaith unrhyw anghydraddoldebau iechyd anfwriadol, yn enwedig yr effaith bosibl ar aelwydydd incwm isel a rhai grwpiau economaidd-gymdeithasol. Anogir Llywodraeth Cymru i gefnogi partneriaethau lleol a dileu rhwystrau i weithredu'n effeithiol. Argymhellir strategaethau atal ehangach, gan gynnwys sgrinio alcohol cyffredinol, ymyriadau byr mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chleifion mewnol, a rheolaethau llymach ar argaeledd alcohol.

Mae rhanddeiliaid yn parhau i bryderu y gallai dileu isafbris uned arwain at gynydd mewn lefelau yfed alcohol a niwed cysylltiedig, yn enwedig ymysg grwpiau incwm isel, gan waethygu anghydraddoldebau iechyd. Credir bod isafbris uned yn hanfodol wrth leihau mathau o ganser y gellir eu hatal, a nodir bod cyfraddau marwolaeth alcohol-benodol wedi bod yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill y DU yn ddiweddar.

Mae rhai yn awgrymu bod angen dull gweithredu wedi'i dargedu, fel prisio gwahaniaethol ar sail cryfder alcohol, er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol. Yn benodol, roedd un ymatebydd o'r diwydiant wedi awgrymu cyflwyno system isafbris uned sy'n seiliedig ar gryfder, lle gallai cynhyrchion cryfder is fel cwrw aros ar 50c yr uned. Gallai hyn leihau effeithiau disodli niweidiol, fel yfwyr trwm yn newid i alcohol cryfach. Roedd yn argymhell cynnal gwerthusiad arall er mwyn asesu effaith isafbris am alcohol, yn benodol effeithiau newid rhwng categorïau cynnyrch ymysg defnyddwyr.

Cyfeiriodd rhai cynrychiolwyr o'r diwydiant at siopa dros y ffin fel canlyniad anfwriadol posibl.

Cyfathrebu yn y dyfodol

Nododd y rhanddeiliaid eu bod eisiau gweld strategaeth gyfathrebu unedig a chyson ledled Cymru, pe bai'r polisi isafbris uned yn parhau. Maent yn argymhell ymgyrch a ariennir gan y llywodraeth a digon o amser arweiniol i gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd a hyrwyddo gwasanaethau cymorth mynediad yn effeithiol.

Os yw newidiadau polisi yn cael eu cyflwyno, roedd rhanddeiliaid yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â manwerthwyr i reoli addasiadau prisiau, arwain ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd, a darparu canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer busnesau. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd negeseuon cyhoeddus clir er

mwyn gwahaniaethu rhwng cynnydd mewn prisiau yn ôl disgresiwn a'r rhai a orfodir gan y gyfraith, yn enwedig o ystyried sensitifrwydd defnyddwyr alcohol i brisiau.

Er bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol o'r farn bod gweithrediad cychwynnol isafbris uned yn glir, roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod cyfathrebu cyhoeddus ehangach yn brin. Nodwyd bod negeseuon yn canolbwyntio'n ormodol ar gynnydd mewn prisiau yn hytrach na nod y polisi o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Awgrymwyd bod y dryswch hwn wedi mynd yn waeth oherwydd gwrth-negeseuon y diwydiant alcohol ac amseriad pandemig Covid-19, a oedd yn cyd-daro â chyflwyno'r polisi.

b. Cyfarfodydd â sefydliadau allweddol

Ymgynghorwyd â deuddeg sefydliad o'r sector iechyd a manwerthu, yn ogystal â'r rhai sy'n cefnogi pobl sy'n camddefnyddio alcohol, trwy gyfres o gyfarfodydd. Cyflwynir crynodeb o'r adborth a gasglwyd isod. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r canfyddiadau a nodwyd yn y gwerthusiadau annibynnol hefyd.

Effaith isafbris uned

Mae rhanddeiliaid o'r sector iechyd a'r sector manwerthu yn nodi bod cynhyrchion alcohol cost isel, cryfder uchel wedi'u tynnu oddi ar y silffoedd, ac nad ydynt ar gael i'w prynu mwyach.

Un o effeithiau isafbris uned yw'r ffaith fod rhai manwerthwyr wedi rhoi'r gorau i werthu alcohol brand y manwerthwr, gan mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng pris cynhyrchion brand manwerthwyr a phris cynhyrchion brand cyffredinol.

Yn ei hymateb, mae Gweithrediaeth y GIG (Perfformiad a Gwellu GIG Cymru bellach) yn dadlau bod isafbris uned wedi cael effaith gadarnhaol ar dderbyniadau i ysbytai oherwydd clefyd yr afu – maes lle mae'n haws nodi effeithiau tymor byr a chanolig. Rhwng 2014 a 2023, roedd clefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gyfrifol am 3,460 o farwolaethau yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, cofnodwyd anhwylderau sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn 114,252 o achosion ysbyty, gan gyfrif am 974,546 o ddiwrnodau gwely. Yn y tair blynedd ers cyflwyno isafbris uned, mae'n ymddangos bod marwolaethau sy'n deillio o glefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi sefydlogi, tra bod derbyniadau a diwrnodau gwely sy'n deillio o glefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi gostwng 13.3% a 5.7% yn y drefn honno. Yn yr un modd, roedd derbyniadau a diwrnodau gwely oherwydd methiant yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi gostwng 11.4% ac 11.9%.

Er bod isafbris uned yn gallu cyfrannu at welliannau mewn meysydd fel iechyd mamau a phlant, clefyd cardiofasgwlaidd, a risg canser, nododd hefyd fod y manteision hyn yn debygol o ddod i'r amlwg dros gyfnod hirach – o bosibl 10

mlynedd neu fwy – a bod angen cynnydd cynyddrannol yn yr isafbris uned er mwyn cynnal yr enillion presennol mewn manteision iechyd.

Nodwyd nad yw isafbris uned wedi cael unrhyw effaith economaidd hysbys ar fanwerthwyr yng Nghymru, a bod eu profiadau'n debyg iawn i brofiadau eu cymheiriaid yn yr Alban i raddau helaeth. Nodwyd nad oedd y broses orfodi wedi creu unrhyw broblemau mawr i fanwerthwyr. Yn groes i'r pryderon a nodwyd mewn gohebiaeth gyhoeddus, nododd rhanddeiliaid nad yw'r polisi wedi arwain at gynnydd uniongyrchol mewn refeniw i fanwerthwyr, yn rhannol oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at newid mewn patrymau prynu ar ôl cyflwyno isafbris uned, gyda siopau llai o ran maint yng Nghymru yn cael cyfran uwch o'r farchnad sy'n deillio o werthiant alcohol erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y tebygrwydd mewn prisiau rhwng manwerthwyr llai a mwy o ran maint, gan nad yw'r olaf yn gallu gwerthu alcohol am bris cyfanwerthu rhatach erbyn hyn. O ganlyniad, roedd rhai manwerthwyr mwy o ran maint wedi sylwi bod eu gwerthiant alcohol wedi gostwng ychydig, gyda chwsmeriaid yn dewis opsiynau lleol mwy cyfleus.

Nodwyd nad yw isafbris uned wedi cael llawer o effaith ar werthiant cwrw, yn bennaf oherwydd y ffaith fod costau cynhyrchu uwch eisoes wedi gosod y cynhyrchion hyn uwchlaw trothwy'r isafbris. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod isafbris uned wedi arwain at fwy o bobl yn mynd i'r dafarn. Roedd rhywfaint o'r adborth yn cwestiynu'r angen parhaus am isafbris hefyd, yn sgil cyflwyno'r drefn newydd ar gyfer treth alcohol, gan awgrymu bod diben tebyg i'r strwythur dreth ddiwygiedig.

Teuluoedd a chymorth i yfwyr

Roedd rhanddeiliaid o'r sector iechyd yn cydnabod yn gyson bod isafbris uned wedi cael effaith anghymesur ar bobl ar incwm isel. Fodd bynnag, yn unol â chanfyddiadau'r gwerthusiadau annibynnol, nid oedd hwn yn cael ei ystyried yn rheswm dros wrthwynebu'r ddeddfwriaeth.

Yn y cyswllt hwn, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau cymorth digonol ar gael i yfwyr ar incwm isel sy'n ddibynol ar alcohol. Er nad yw isafbris uned wedi'i gyflwyno'n benodol i dargedu yfwyr dibynnol, nodwyd bod y math o gynhyrchion sy'n cael eu heffeithio'n bennaf gan y polisi, fel seidr cost isel, cryfder uchel, yn cael eu hyfed gan y grŵp hwn gan amlaf, sy'n golygu bod rhywfaint o effaith yn anochel.

Roedd cytundeb cyffredinol y dylai isafbris uned gael ei ystyried yn un elfen o strategaeth ehangach i fynd i'r afael ag yfed niweidiol a pheryglus. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen mesurau ategol, megis darparu gwasanaethau alcohol saith diwrnod, a ystyriwyd yn fuddiol ac yn gost-effeithiol ynghyd ag isafbris uned.

Parhad a phris

Er nad oedd cwestiwn penodol wedi ysgogi eu hymateb, nododd sawl sefydliad eu bod am barhau â'r drefn isafbris uned, ac roedd llawer yn argymhell cynyddu'r gyfradd i isafswm o 65c fesul uned. Dadleuodd rhanddeiliaid fod effeithiolrwydd y gyfradd 50c fesul uned bresennol wedi cael ei erydu dros amser gan chwyddiant, a bod angen cynyddu'r gyfradd er mwyn cynnal effaith fwriedig y polisi. Heb addasiad o'r fath, awgrymwyd y gallai isafbris uned fynd yn llai effeithiol dros amser a newid i fod yn bolisi symbolaidd yn hytrach na gweithredol.

Hefyd, roedd rhai sefydliadau o'r sector manwerthu o blaid sicrhau cysondeb rhwng cyfradd yr uchafbris uned yng Nghymru â'r gyfradd 65c fesul uned yn yr Alban, gan nodi y byddai cysondeb ar draws gwledydd yn helpu i leihau cymhlethdod i fanwerthwyr sy'n gweithredu yn y ddwy farchnad. Mynegwyd pryder am yr heriau o reoli a gorfodi lefelau uchafbris uned gwahanol ar draws ffiniau.

Cyfathrebu yn y dyfodol

Pwysleisiodd manwerthwyr bwysigrwydd cyfathrebu clir ac amserol pe bai isafbris uned yn parhau, er mwyn sicrhau bod staff a defnyddwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd cyn cyflwyno isafbris uned yn wreiddiol. Nodwyd cyfnod arweiniol o chwe mis, wedi'i ategu gan ddulliau cyfathrebu digonol, fel yr amserlen a ffefrir.

Hefyd, nododd rhanddeiliaid o'r sector manwerthu fod angen eglurhad parhaus nad yw isafbris uned yn arwain yn ei hanfod at fwy o drosiant neu elw i gynhyrchwyr neu fanwerthwyr. Er bod isafbris uned yn gallu dylanwadu ar ymddygiad prynu, nodwyd na ellir rhagdybio y bydd yn arwain at fwy o elw.

c. Agweddau'r cyhoedd at isafbris uned

Dangosodd canfyddiadau o'r arolwg panel [Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Chwefror 2025](#) fod bron i chwech o bob 10 o bobl (58%) yn ymwybodol o'r isafbris uned am alcohol yng Nghymru. Roedd dwywaith yn fwy o bobl yn cefnogi'r ddeddfwriaeth na'i gwrthwynebu – dywedodd 43% o bobl eu bod o blaid isafbris uned am alcohol, tra mai dim ond 21% a ddywedodd eu bod yn ei wrthwynebu. Roedd 28% arall yn niwtral, ac nid oedd 7% yn gwybod a oeddent o blaid neu yn erbyn.

Ymysg y rhai oedd yn cefnogi'r ddeddfwriaeth, y prif resymau a nodwyd oedd mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ehangach (47%) a helpu i atal pobl rhag yfed gormod yn gyffredinol (18%). Ymysg y rhai oedd yn gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth, y prif resymau a nodwyd oedd ei bod yn cosbi pawb yn annheg am

weithredoedd ychydig o bobl (24%) ac y bydd pobl yn parhau i yfed waeth beth yw'r pris (23%).

d. Galwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ar gais y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, galwodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd am dystiolaeth ysgrifenedig ar yr isafbris uned. Daeth yr alwad i ben ar 30 Ebrill. Cafodd y Pwyllgor 20 o ymatebion a chyhoeddodd ei adroddiad ar yr Isafbris Uned am Alcohol ar 30 Mehefin.

Canfu'r pwyllgor fod cefnogaeth gref ymhlith yr ymatebwyr i barhau â'r isafbris uned am alcohol yng Nghymru. Mae'n ystyried y polisi fel offeryn iechyd y cyhoedd gwerthfawr, yn enwedig ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith y rhai sy'n yfed ar lefelau niweidiol. Roedd y pwyllgor hefyd yn cydnabod ei botensial ataliol wrth leihau'r tebygolrwydd o ddibyniaeth ar alcohol yn y dyfodol. Dywedodd yr adroddiad fod y gwerthusiad annibynnol o'r isafbris uned yn rhoi sicrwydd, gan ddangos bod llawer o'r pryderon gwreiddiol am y ddeddfwriaeth yn ddi-sail. Mae'n ymddangos bod gweithredu a gorfodi wedi bod yn esmwyth, heb faich sylweddol ar fanwerthwyr, ac mae rhywfaint o dystiolaeth gynnar sy'n awgrymu gostyngiad yn y defnydd o alcohol heb symud tuag at sylweddau mwy peryglus, anghyfreithlon.

Fodd bynnag, cydnabu'r pwyllgor fod canolbwyntio effaith lawn yr isafbris uned ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn parhau i fod yn heriol oherwydd y ffactorau cymhleth sy'n dylanwadu ar y defnydd o alcohol, yn enwedig gan fod cyflwyno'r polisi wedi cyd-daro â dechrau'r pandemig Covid-19. Dywedodd hefyd fod y gwerthusiad annibynnol yn gyfyngedig o ran ei gwmpas a'i raddfa, gan ei gwneud hi'n rhy fuan i ystyried dod â'r polisi i ben.

Mae'r pwyllgor yn credu y dylai'r isafbris am alcohol barhau, gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad mwy cadarn a chynhwysfawr. Dylai asesiadau yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad meintiol ar draws y canlyniadau allweddol, megis derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, i ddeall effeithiau hirdymor y polisi yn well.

Mae adroddiad llawn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys ei naw argymhelliad, ar gael yn [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru](#). Mae'r ymatebion a gyflwynwyd i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn [Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru](#). Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad ac argymhellion y pwyllgor.

Adran 6 – Casgliad a'r camau nesaf

6.1 Casgliad

Rydym wedi archwilio'r dystiolaeth am weithrediad ac effaith isafbris uned dros y cyfnod pum mlynedd ers ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020 hyd at ddiwedd mis Chwefror 2025. Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ffynonellau amrywiol, gan gynnwys y gwerthusiadau annibynnol a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2025, ymatebion i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, Arolwg Agweddau'r Cyhoedd lechyd Cyhoeddus Cymru, a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.

Mae'n bwysig cydnabod bod sawl ffactor allanol arwyddocaol yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwn wedi effeithio ar y casgliadau y gellir dod iddynt o'r dystiolaeth sydd ar gael. Roedd cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn cyd-daro â dechrau'r pandemig Covid-19 ac fe'i dilynwyd gan yr argyfwng costau byw, gan arwain at gyfnod o chwyddiant uchel parhaus. Mae'r ffactorau hyn wedi creu cymhlethdod sylweddol i'r broses werthuso ac mae'n debygol eu bod wedi dylanwadu ar agweddau tuag at alcohol, ei bris, a phatrymau prynu ac yfed.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r gwerthusiadau annibynnol yn dod i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu tuedd gadarnhaol yn gyffredinol o ganlyniad i gyflwyno isafbris uned, er bod rhai cyfyngiadau a heriau'n parhau. Mae'r dystiolaeth yn cyflwyno darlun cadarnhaol yn gyffredinol o isafbris am alcohol fel mesur polisi, yn enwedig wrth ei weithredu yng Nghymru.

Daeth y gwerthuswyr annibynnol i'r casgliad y dylid cadw isafbris am alcohol fel mesur polisi alcohol yng Nghymru, yn hytrach na gadael iddo ddirwyn i ben. Fe wnaethant argymhell ystyried adolygu'r gyfradd bresennol o 50c fesul uned. Er bod y gwerthuswyr yn nodi y byddai angen cynyddu'r gyfradd i 65c fesul uned o leiaf er mwyn cynnal gwerth y polisi presennol a chadw unrhyw effeithiau cadarnhaol a welwyd hyd yma, roeddent yn cydnabod bod penderfyniadau'n ymwneud â pharhau ag isafbris uned ac unrhyw newidiadau i'r gyfradd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

Roedd y gwerthusiadau annibynnol yn nodi hefyd bod lefelau cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn uchel, a dim ond chwe hysbysiad cosb benodedig sydd wedi'u cyhoeddi yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn awgrymu bod gwerthu alcohol o dan yr isafbris o 50c fesul uned wedi dod i ben i raddau helaeth ers i'r Ddeddf ddod i rym. Disgrifiodd y gwerthuswyr y broses o gyflwyno isafbris uned fel "llyfn ac effeithiol".

Nododd y gwerthusiadau annibynnol fod isafbris uned wedi cael sawl effaith glir ac amlwg, yn bennaf y ffaith fod rhai cynhyrchion alcohol cost isel a chryfder uchel wedi'u gwaredu o'r farchnad, a newidiadau addasol gan gynhyrchwyr a manwerthwyr yn y mathau o gynhyrchion a hyrwyddiadau sydd ar gael yng Nghymru. Nododd

manwerthwyr fod y ddeddfwriaeth yn cael yr effaith a fwriadwyd trwy wneud y cynhyrchion hyn yn ddrutach, gan arwain at lai o alw amdanynt gan gwsmeriaid a llai o debygolrwydd y bydd siopau yn stocio eitemau o'r fath.

Mae'r gwerthusiadau annibynnol yn dangos bod isafbris uned wedi cael effaith sylweddol ar bobl sy'n yfed ar lefelau sy'n gyson â dibyniaeth neu geisio triniaeth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yfwyr ar incwm isel, yn enwedig y rhai sy'n yfed cyfeintiau uwch, wedi wynebu mwy o straen ariannol, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth eu bod wedi hepgor eitemau hanfodol fel bwyd. Fodd bynnag, fel y nodwyd, ni ddylai'r ffaith fod mesurau fforddiadwyedd yn effeithio'n anghymesur ar bobl sydd ar incwm isel danseilio gwerth deddfwriaeth isafbris uned fel rhan o ymyriadau polisi alcohol ehangach. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r farn hon, tra'n cydnabod hefyd bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau triniaeth alcohol a chymorth cysylltiedig yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion y grŵp hwn.

Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 30 Ionawr a 24 Ebrill 2025 yn gyfle hefyd i randdeiliaid perthnasol o'r sector iechyd, y sector manwerthu a'r trydydd sector ystyried eu profiadau eu hunain o isafbris uned. Cafwyd adborth amrywiol i'r ymgynghoriad, ac roedd llawer o'r adborth hwn yn cefnogi canfyddiadau'r gwerthusiadau annibynnol. Hefyd, roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau ychwanegol a safbwyntiau gwahanol a nodir uchod.

Un maes allweddol a nodwyd o'r gwerthusiad a'r ymgynghoriad oedd pwysigrwydd cyfathrebu clir os yw'r isafbris uned yn parhau ac os yw'r pris yn cael ei addasu. Roedd adborth o'r sector manwerthu yn pwysleisio'n gryf bod angen hysbysu staff a defnyddwyr am unrhyw newidiadau, a bod y newidiadau hyn yn deillio o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Ar sail yr asesiad hwn, maent yn credu bod tystiolaeth yn awgrymu bod isafbris am alcohol wedi cyfrannu tuag at yr amcanion a fwriadwyd. Mae'n ymddangos bod isafbris uned wedi cyfrannu at yr amcanion polisi a fwriadwyd, er bod union lefel ei effaith yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau. Bydd angen gwerthusiad pellach i asesu ei effeithiolrwydd hirdymor.

6.2 Y camau nesaf

Mae lefelau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn uchel yng Nghymru ac mae alcohol yn parhau i fod y sylwedd mwyaf problematig y mae pobl yn ceisio cymorth ar ei gyfer. Roedd 562 o farwolaethau alcohol-benodol yng Nghymru yn 2023, cynnydd o 76 ers 2022 (15.6%) a 194 ers 2019 (52.7%)¹.

¹ [Cloddio Data Cymru: Y profil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023/24 - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), t.62

Mae isafbris uned am alcohol yn un o nifer o bolisiâu iechyd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau iechyd. Nid oedd wedi'i gynllunio i weithio ar wahân, a byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ym maes camddefnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar waith atal, cymorth ac adfer, a mynd i'r afael ag argaeledd.

Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau am ddyfodol y gyfundrefn isafbris. Rydym yn cydnabod y gellir dylanwadu ar effeithiolrwydd isafbris uned, fel polisi, gan y pris fesul uned a bennir, a bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Felly bydd pennu dyfodol yr isafbris uned yn gofyn am ystyried lefel briodol yr isafbris. I gefnogi hyn, rydym wedi comisiynu [Sheffield Addictions Research Group](#), Prifysgol Sheffield, i archwilio'r berthynas hon. Bydd dadansoddiad y grŵp hwn, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, yn llywio ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylid parhau ag effaith darpariaethau isafbris uned, ac os felly, ar ba lefel y dylid pennu'r isafbris fesul uned.

Cymal Machlud

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi'r broses statudol o wneud penderfyniadau hefyd sy'n ofynnol o dan y cymal machlud yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Mewn gwirionedd, mae cynnig i barhau â darpariaethau isafbris uned yn gynnig i ymestyn y ddeddfwriaeth y tu hwnt i'r terfyn chwe blynedd a osodir gan y cymal machlud.

Mae adran 22 o Ddeddf 2018 yn nodi cyfnod para darpariaethau'r isafbris:

“(1) Mae darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu gydag effaith ar ôl i'r cyfnod 6 mlynedd ddod i ben, oni bai y gwneir rheoliadau o dan isadran (2) sy'n darparu fel arall.

(2) Caiff rheoliadau, ar ôl diwedd y cyfnod 5 mlynedd ond cyn diwedd y cyfnod 6 mlynedd, ddarparu nad yw darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu, er gwaethaf isadran (1).

(3) Caiff rheoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth (gan gynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad) sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i ddiddymu, yn rhinwedd isadran (1), ddarpariaethau'r isafbris.

(4) Yn yr adran hon—

ystyr “darpariaethau'r isafbris” (“minimum pricing provisions”) yw—

(a) y Ddeddf hon (ac eithrio isadran (3) a'r isadran hon, ac at ddibenion gwneud rheoliadau o dan isadran (3), adrannau 26(1), (2) a 27), a

(b) paragraff 2A o Atodlen 4 i Ddeddf 2003²;

mae “addasu” (“modifying”), mewn perthynas â deddfiad, yn cynnwys diwygio, diddymu a dirymu;

ystyr “y cyfnod 5 mlynedd” (“the 5 year period”) yw’r cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw adran 2 i rym;

ystyr “y cyfnod 6 blynedd” (“the 6 year period”) yw’r cyfnod o 6 blynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw adran 2 i rym.”

Daeth adran 2 o Ddeddf 2018 i rym ar 2 Mawrth 2020 (yn rhinwedd erthygl 2(b) o Orchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu’n awtomatig ar 1 Mawrth 2026 (ar ddiwedd y cyfnod chwe blynedd), oni bai bod rheoliadau’n cael eu gwneud i’w parhau yn ystod y cyfnod ar ôl 1 Mawrth 2025 a chyn 1 Mawrth 2026.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd â chanfyddiadau'r adroddiad hwn a'r gwaith modelu, yn llunio'r sylfaen dystiolaeth i sicrhau penderfyniad ynglŷn ag a ddylid ymestyn y darpariaethau isafbris uned y tu hwnt i'r amserlen ddeddfwriaethol bresennol, ac ar ba lefel y dylid gosod yr isafbris fesul uned.

² Mae paragraff 2A o Atodlen 4 i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ychwanegu trosedd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 at y rhestr o droseddau perthnasol, fel y'i diffinnir yn adran 113, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno (trwyddedau personol).

Tudalennau Atodiadau er gwybodaeth

Atodiad A – Cwestiynau a ddosbarthwyd i randdeiliaid

Iechyd, atal troseddu, addysg, gwaith cymdeithasol

1. Disgrifiwch sut mae isafbris uned wedi effeithio ar eich gwaith o ddydd i ddydd. A yw hyn wedi arwain at unrhyw newidiadau?
2. Disgrifiwch a yw isafbris uned wedi effeithio ar eich llwyth gwaith cyffredinol?
3. Disgrifiwch yr effaith mae isafbris uned wedi'i chael ar y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw.
4. Disgrifiwch yr effaith y byddai dileu isafbris uned yn ei chael ar eich gwaith yn eich barn chi.
5. Eglurwch a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y polisi isafbris uned presennol er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol?

Deiliaid mangreoedd â thrwyddedau a roddwyd o dan Ddeddf 2005 a chynhyrchwyr alcohol:

1. Disgrifiwch a yw isafbris uned wedi effeithio ar eich busnes?
2. Disgrifiwch a ydych chi'n meddwl bod cyflwyno isafbris uned wedi cael unrhyw effaith ar refeniw busnesau? Os felly, allwch chi roi rhagor o fanylion?
3. Disgrifiwch a yw cyflwyno isafbris uned wedi effeithio ar eich cadwyn gyflenwi?
4. Disgrifiwch yr effaith y byddai dileu isafbris uned yn ei chael ar eich gwaith yn eich barn chi.
5. Eglurwch a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y polisi isafbris uned presennol er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol?

Pobl â phrofiad bywyd

1. Disgrifiwch sut mae isafbris uned wedi effeithio ar eich gwaith chi bob dydd neu waith y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw.
2. Disgrifiwch yr effeithiau negyddol arnoch sydd wedi deillio o isafbris uned, os o gwbl.
3. Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol arnoch sydd wedi deillio o isafbris uned, os o gwbl.

4. Disgrifiwch yr effaith y byddai dileu isafbris uned yn ei chael arnoch.
5. Disgrifiwch yr effaith y byddai cynyddu'r isafbris uned yn ei chael arnoch.
6. Eglurwch a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y polisi isafbris uned presennol er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol?

Plant a phobl ifanc (y rhai sy'n 25 oed ac iau)

1. Disgrifiwch beth yw eich dealltwriaeth o isafbris uned.
2. Disgrifiwch a yw isafbris uned wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu?
3. Disgrifiwch a yw isafbris uned wedi effeithio ar eich ffrindiau?
4. Disgrifiwch i ba raddau y mae pris yn effeithio ar yr alcohol rydych chi'n ei ddewis.
5. Disgrifiwch yr effaith rydych chi'n credu y byddai dileu isafbris uned yn ei chael arnoch.
6. Disgrifiwch yr effaith rydych chi'n credu y byddai cynyddu'r isafbris uned am alcohol yn ei chael arnoch.
7. Eglurwch a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y polisi isafbris uned presennol er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol?

Atodiad B – Rhestr o sefydliadau y gwnaethom gyfarfod â nhw (ynghyd â'r cwestiynau)

Byrddau Cynllunio Ardal

Y Gymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd

Gweithrediaeth y GIG

Cymdeithas y Siopau Cyfleustra

Alcohol Change

Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain

Cyfarfod Rhwydwaith Defnyddio Sylweddau'r Trydydd Sector

Safonau Masnach Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Consortiwm Manwerthu Cymru

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

BMA Cymru

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol yn ystod y trafodaethau. Nid oedd pob cwestiwn yn berthnasol ac roedd y trafodaethau wedi cynnwys meysydd eraill.

Y Sector Iechyd

1. Disgrifiwch sut mae'r isafbris uned wedi effeithio ar eich gwaith o ddydd i ddydd.
2. A yw'r isafbris uned wedi newid sut rydych chi'n gwneud eich gwaith?
3. Sut mae'r isafbris uned wedi effeithio ar eich llwyth gwaith cyffredinol?
4. Pa effaith y mae isafbris uned wedi'i chael ar y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw?
5. Pa effaith y byddai dileu isafbris uned yn ei chael ar eich gwaith yn eich barn chi?
6. A oes unrhyw beth arall am isafbris uned yr hoffech ei ddweud wrthym?

Y sector diwydiant/manwerthu

1. Sut mae'r isafbris uned wedi effeithio ar eich busnes?
2. Ydych chi'n meddwl bod cyflwyno isafbris uned wedi cael unrhyw effaith ar reffeniwr busnesau?

3. Oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn?
4. Sut mae'r isafbris uned wedi effeithio ar eich cadwyn gyflenwi?
5. Pa effaith y byddai dileu isafbris uned yn ei chael ar eich gwaith yn eich barn chi?
6. A oes unrhyw beth arall am isafbris uned yr hoffech ei ddweud wrthym?